# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant

## Y Dull Gwybyddol – Vygotsky

| Damcaniaethwr dull | Prif agweddau'r dull neu'r ddamcaniaeth sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant | Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau |
| --- | --- | --- |
| Gwybyddol:<br><br>Vygotsky<br><br>**Geiriau allweddol:**<br><br>- Sgaffaldwaith<br>- Unigolyn Arall Mwy Gwybodus (MKO - *more knowledgeable other*)<br>- Y Parth Datblygiad Procsimol<br>- Y Parth Datblygiad Gwirioneddol<br>- Tiwtorial gan gyfoedion | Datblygodd Vygotsky y ddamcaniaeth lluniadaeth gymdeithasol lle mae unigolion yn gyfranogwyr gweithredol wrth greu eu gwybodaeth eu hunain. Credai Vygotsky fod dysgu yn digwydd yn bennaf mewn lleoliadau cymdeithasol a diwylliannol, yn hytrach na dim ond o fewn yr unigolyn.<br><br>Mae'r ddamcaniaeth lluniadaeth gymdeithasol yn awgrymu bod myfyrwyr yn dysgu'n bennaf drwy ryngweithio â'u cyfoedion, eu hathrawon a'u rhieni. Credai Vygotsky fod plant yn meithrin dealltwriaeth ac yn dysgu o fewn cyd-destun diwylliannol-gymdeithasol a bod plant yn meithrin dealltwriaeth ac yn datblygu'n wybyddol drwy iaith.<br><br>Yn ôl damcaniaeth Vygotsky, wrth i blentyn ddatblygu, bydd angen cefnogaeth unigolyn arall mwy gwybodus arno er mwyn camu ymlaen yn eu dysgu, sef proses a elwir yn sgaffaldwaith. Dywedir bod y plentyn mewn 'parth datblygiad procsimol' ac y bydd y broses sgaffaldwaith yn ei helpu i feithrin y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i symud ymlaen. Bydd y plentyn yn ymarfer ac yn cyfuno'r dysgu hwnnw cyn bod angen sgaffaldwaith pellach.<br><br>Yn wahanol i Piaget, nid yw Vygotsky yn nodi cyfres o gamau, ond yn hytrach broses ddatblygu sy'n fwy graddol. Mae hefyd yn cydnabod y bydd profiad, iaith ac, felly, ddatblygiad hefyd yn amrywio yn ôl y diwylliant y mae'r plentyn wedi'i drwytho ynddo. | Mae damcaniaeth Vygotsky yn tynnu sylw at yr agwedd gymdeithasol ar chwarae, dysgu a datblygu. Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd chwarae a arweinir gan oedolyn ac a ysgogir gan blentyn. Mae angen i oedolion arsylwi ar chwarae a datblygiad plant a gwybod pryd i gynnig sgaffaldwaith ar gyfer dysgu. Gall oedolion weithio ochr yn ochr â'r plant i ehangu a herio eu dysgu.<br><br>Hefyd, cydnabu Vygotsky y rôl bwysig y gall ein cyfoedion ei chwarae hefyd wrth ddarparu sgaffaldwaith ar gyfer dysgu. Bydd grŵp o blant sy'n chwarae gyda'i gilydd yn cynnwys amrywiaeth o oedrannau a galluoedd, a bydd rhai plant yn cefnogi datblygiad plant eraill, sef tiwtor cyfoed neu diwtorial cyfoedion. Fel Piaget, mae damcaniaeth Vygotsky hefyd yn hyrwyddo dysgu drwy chwarae ysgogol a heriol.<br><br>Mae arsylwi yn rhan hollbwysig o'r sgaffaldwaith er mwyn pennu ble mae'r plentyn wedi cyrraedd o ran ei ddysgu, a dylid darparu gweithgareddau sydd ychydig uwchlaw lefel gallu bresennol y plentyn er mwyn darparu sgaffaldwaith a chefnogi dysgu. |